| | |
|---|---|
| **Adroddiad ar gyfer:** | **Pwyllgor Craffu Cymunedau** |
| **Dyddiad y Cyfarfod:** | **Ionawr 17, 2013** |
| **Aelod Arweiniol / Swyddog:** | **Pennaeth Tai a Datblygu Cymunedol** |
| **Awdur yr Adroddiad:** | **Prif Swyddog y Strategaeth Adfywio** |
| **Title:** | **Digwyddiad Seiclo Etape** |

## 1. Beth mae'r adroddiad yn ymwneud ag o?

Darparu dadansoddiad o effaith digwyddiad 2012 ar y gymuned leol, busnesau lleol a chyfranogwyr ynghyd â'r manteision a gafwyd / effaith ar yr economi leol ehangach a Sir Ddinbych yn ei chyfanrwydd.

## 2. Beth ydi'r rheswm am wneud yr adroddiad yma?

Darparu gwybodaeth ar yr adolygiad o ddigwyddiad 2012 ac i amlinellu cynnydd hyd yma gyda'r trefniadau ar gyfer 2013.

Penderfynodd y Pwyllgor Craffu Cymunedau ei fod yn cefnogi'r cau ffordd a geisiwyd i ganiatáu i Etape Cymru 2012 ddigwydd, yn amodol ar:

a) ymgynghoriad llawn â'r cymunedau a busnesau lleol sy'n cael eu heffeithio gan gau'r ffyrdd, yn cynnwys ymgynghoriad â'r Grŵp Ardal Aelodau (GAA)
b) cynnal asesiad effaith
c) bod y Pwyllgor yn derbyn sicrwydd y bydd Bwlch yr Oernant yn cael ei ail-agor i draffig erbyn 11am

## 3. Beth yw'r Argymhellion?

Bod y Pwyllgor yn ystyried y diweddariad ar y cynnydd ac yn rhoi arsylwadau a fyddai'n ategu adroddiad i'r Cabinet yn Chwefror 2013.

## 4. Manylion yr adroddiad.

Mae Cyngor Sir Ddinbych wedi parhau â'i ohebiaeth reolaidd â Human Race, trefnwyr Etape Cymru, a Chyngor Bwrdeistref Sirol Wrecsam, o ran digwyddiad beicio 'ffyrdd caeedig' 2012 a gynhaliwyd ar ddydd Sul, Medi 9, 2012 ac mae cynlluniau ar y gweill rŵan i gynnal digwyddiad 2013 ar ddydd Sul, Medi 8.

Mae trefnwyr wedi cyfarfod â'r Grŵp Cynghori Diogelwch (Heddlu, Ambiwlans, Gwasanaethau Brys a swyddogion Priffyrdd ac Adfywio Wrecsam / Dinbych) i adolygu 2012 ac maen nhw wedi gwrando ar argymhellion y Grŵp.

Atodiad 1 ydi adolygiad y trefnwyr o ddigwyddiad Etape Cymru 2012 sy'n rhoi trosolwg positif o'r effaith economaidd ar ardal Wrecsam/De Sir Ddinbych.

Atodiad 2 (sy'n eithriedig rhag datgeliad cyhoeddus yn rhinwedd paragraffau 12, 13 a 14 Rhan 4 o Atodlen 12A Deddf Llywodraeth Leol 1972) ydi adolygiad Cyngor Sir Ddinbych o fusnesau sydd ar lwybr neu'n agos at lwybr Etape Cymru o ffyrdd a oedd wedi eu cau dros dro. Mae'n dangos fod y rhan fwyaf o fusnesau un ai'n bositif neu'n ddifater ynglŷn â'r digwyddiad. Mae sylwadau negyddol gan ambell i fusnes a ddangosir yn cael sylw gan y trefnwyr gyda'r bwriad o wneud yr addasiadau sy'n angenrheidiol i'r cau ffyrdd treigl.

Atodiad 3 ydi cofnodion cyfarfod diwethaf y Grŵp Cynghori Diogelwch, lle mae'r prif sialensiau sydd i'w datrys gan y trefnwyr yn 2013 yn cael eu dangos fel gwell cyfathrebu â'r cymunedau amaethyddol ar y ffordd, a gwell briffio a chyfathrebu â stiwardiaid.

**5. Sut mae'r penderfyniad yn cyfrannu tuag at y Blaenoriaethau Corfforaethol?**

Mae Sir Ddinbych yn gyrchfan o ansawdd ar gyfer seiclo, ond hyd yma nid yw wedi ei darganfod yn iawn, ac mae â chyfle ardderchog i elwa'n economaidd o'r twf a welwyd yn y sector dwristiaeth gweithgaredd. Adfywio ydi un o flaenoriaethau corfforaethol y Cyngor.

Mae rhannau sylweddol o Sir Ddinbych wedi eu dynodi'n ddiweddar yn Ganolfan Ragoriaeth Seiclo Gogledd Cymru, gyda'r nod o greu ardal a gydnabyddir yn genedlaethol yn gyrchfan eithriadol gydol y flwyddyn ar gyfer beicio ar y ffordd ac oddi ar y ffordd a gweithgaredd awyr agored i bawb mewn golygfeydd eithriadol a chyferbyniol.

Mae Cyngor Sir Ddinbych yn ymrwymedig hefyd i Strategaeth Dwristiaeth Gogledd Cymru, lle mae ei Gynllun Gweithredu'n cynnwys datblygiad digwyddiadau mawr ac atyniadau a gweithgareddau awyr agored.

**6. Beth fydd hyn yn ei gostio a sut fydd o'n effeithio ar wasanaethau eraill?**

Ni wnaethpwyd unrhyw gyfraniad ariannol i'r digwyddiad gan Gyngor Sir Ddinbych.

Darparwyd amser staff gan Briffyrdd, Adfywio a phrosiect Canolfan Ragoriaeth Seiclo i gefnogi cynllunio'r digwyddiad gan y trefnwyr.

**7. Pa ymgynghoriadau a gafwyd?**

Fe gynhaliwyd ymgynghoriad ynglŷn â chau'r ffyrdd gan drefnwyr y digwyddiad yn uniongyrchol, gyda chyfarwyddyd gan swyddogion CSDd:

- Anfonwyd llythyrau ar e-bost gan Human Race i gynghorau cymuned a chynghorwyr sir ar hyd y ffordd.

- Datganiadau i'r Wasg

- Yng Nghyngor Sir Ddinbych - mae yna ymgynghori ac ymgysylltu eisoes â'r adrannau canlynol: Priffyrdd, Cludiant Cyhoeddus, Iechyd a Diogelwch, Cefn Gwlad, Prosiect Canolfan Ragoriaeth Seiclo, Adfywio a Thwristiaeth, Prif Weithredwr, Cyfathrebu Corfforaethol, yr Aelod Arweiniol dros Dwristiaeth, Hamdden ac Ieuenctid, ac Aelodau'r wardiau perthnasol.

- Mae Heddlu Gogledd Cymru a gwasanaethau brys eraill wedi bod yn gwbl ymglymedig, ac fe sefydlwyd Grŵp Cynghori Diogelwch Wrecsam/Sir Ddinbych ar y cyd i arolygu traffig, cludiant a gweithdrefnau rheoli cerddwyr ar gyfer y digwyddiad yma – gweler atodiad 3 a 4

- Cafodd trefnwyr y digwyddiad gyfarfodydd cychwynnol â busnesau ymlaen llaw i geisio eu hymgysylltu â'r digwyddiad, i drafod cyfleoedd iddyn nhw ymgysylltu ac elwa ar y digwyddiad yma.

O ganlyniad i adborth gan y Grŵp Cynghori Diogelwch, aelodau ward a busnesau hyd yma:

- mae opsiynau gwahanol ar gyfer y daith wedi eu hystyried i leihau effaith cau'r ffordd dros dro yn ardaloedd Graigfechan a Llandegla
- gwell cyfathrebu â'r gymuned ffermio ar hyd llwybr ffordd fydd wedi cau dros dro
- ystyried diwygio'r llwybr yn ardal Graigfechan/silff/Llandegla i leihau hyd yr amser y bydd y ffordd ar gau a lleihau'r effaith ar ddau neu dri o fusnesau allweddol
- cofrestru a digwyddiad di-dâl i'w cynnal yn Llangollen

## 8. Datganiad y Prif Swyddog Cyllid

Nid yw'r Cyngor yn ystyried unrhyw gyfraniad ariannol i'r digwyddiad yma.

## 9. Pa risgiau sydd yna ac a oes yna unrhyw beth y gallwn ei wneud i'w lleihau?

Risg potensial i enw da, gan breswylwyr anfodlon a busnesau a allai gael eu heffeithio gan gau ffyrdd dros dro ar Fedi 8, 2013.

Fe reolir y risg drwy sicrhau bod trefnydd y digwyddiad wedi gwneud popeth sy'n bosib i atgoffa trigolion a busnesau o'r cynllun cau ffyrdd terfynol i ganiatáu gwneud cynlluniau teithio gwahanol os bydd angen.

## 10. Grym i wneud y Penderfyniad

Adran 2 Deddf Llywodraeth Leol 2000 (ar gyfer hyrwyddo neu wella lles economaidd, cymdeithasol neu amgylcheddol ardal awdurdod lleol).

Mae Erthygl 6.3.2 yn amodi bod pwyllgorau craffu'n "ystyried unrhyw fater sy'n effeithio ar yr ardal neu ei thrigolion."

**Swyddog Cyswllt:**
Prif Swyddog y Strategaeth Adfywio
Ffôn:  01824 706707